Ordinhad 25
Cyflwyno teitl Athro Ymchwil; ac Athro Emeritws, Darllenydd Emeritws, Uwch Ddarlithydd Emeritws, a Darlithydd Emeritws

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 12 Hydref 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiedig

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygiad diwethaf: Hydref 2018

Dyddiad adolygu: Hydref 2020

ORDINHAD 25
CYFLWYNO TEITL ATHRO EMERITWS, DARLLENYDD EMERITWS, UWCH DDARLITHYDD EMERITWS, A DARLITHYDD EMERITWS

1. Gall y Brifysgol gyflwyno teitlau Athro Emeritws, Darllenydd Emeritws, Uwch-ddarlithydd Emeritws, neu Ddarlithydd Emeritws o'r Brifysgol i staff ar ôl iddynt ymddeol o Brifysgol Aberystwyth.

2. At ddibenion yr Ordinhad yma, ystyr 'ymddeol' yw adeg pan fydd cyflogai yn ymddiswyddo o'u cyflogaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn cychwyn derbyn incwm gan bensiwn galwedigaethol.

3. <u>Cyflwyno Teitl Athro Emeritws, Darllenydd Emeritws, Uwch-ddarlithydd Emeritws, a Darlithydd Emeritws</u>

    1. Bydd teitl Athro Emeritws, Darllenydd Emeritws, Uwch-ddarlithydd Emeritws, a Darlithydd Emeritws yn cael eu defnyddio i gydnabod a rhoi statws i gyn aelodau o'r staff academaidd sydd am gyfrannu'n barhaol at waith academaidd y sefydliad. Bydd hyn yn gyfraniad *pro bono*, ac ni fydd cyflog yn sgil y cyfraniad hwn.

    2. Gellir cyflwyno'r teitl Emeritws perthnasol ar Athrawon, Darllenwyr, Uwch-ddarlithwyr, neu Ddarlithwyr wrth iddynt ymddeol o'r Brifysgol gan yr Is-Ganghellor, a fydd yn derbyn adroddiad rheolaidd gan yr adran Adnoddau Dynol am yr aelodau hynny o staff sydd wedi ymddeol yn ddiweddar neu sydd wedi nodi eu bwriad i ymddeol.

    3. Adroddir enwau'r sawl sydd wedi derbyn teitl Emeritws er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.

    4. Bydd unrhyw berson a fydd ar ôl hynny yn ymgymryd â gwaith sylweddol mewn sefydliad academaidd arall yn ildio'r teitl Emeritws. Bydd unigolion sy'n ailgychwyn cyflogaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth wedi iddynt ymddeol yn colli'r teitl Emeritws dros-dro hyd nes y bydd eu cyflogaeth gyda'r Brifysgol yn dod i ben.

4. <u>Ôl-ddyddio dyfarniad Teitl Athro Emeritws, Darllenydd Emeritws, Uwch-ddarlithydd Emeritws, a Darlithydd Emeritws</u>

    1. Lle bydd cyn-aelodau o staff academaidd yn cwrdd â'r meini prawf uchod ond heb dderbyn teitl Emeritws wrth ymddeol, gellir gwneud cais trwy'r adran Adnoddau Dynol ar i'r mater gael ei adolygu gyda golwg ar ddyfarnu teitl wedi hynny.

    2. Bydd yr Is-Ganghellor yn derbyn adroddiad rheolaidd am y cyn-aelodau hynny o staff sydd wedi gwneud cais am ôl-ddyfarniad o deitl Emeritws. Gellir dyfarnu'r teitl priodol iddynt gan yr Is-Ganghellor, gydag enwau'r sawl sydd wedi derbyn teitl Emeritws yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio er gwybodaeth.